**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 18 o Fedi 2018 yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo</u>**

**<u>Presennol:</u>** Y Cynghorwyr Haf Williams ( Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Martin Jones, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Phil Roberts, Llywelyn Williams, Hefin Jones, Beca Brown, Clifford Williams.

**<u>Ymddiheuriadau:</u>** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Rhys Parry, Meirwen Lloyd

**<u>Aelod Cyngor Gwynedd:</u>** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Ward Cwm y Glo)

**<u>Aelod Ieuenctid:</u>** Miriam Rowlands

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**247. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb.

**248. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**249. Datgan buddiant personol.**

Fe ddatganodd yr isod ddiddordeb yn yr eitem 264 (c) ac ni chymeron ran y penderfyniad

Y Cynghorydd Hefin Jones
Y Cynghorydd Haf Williams

**250. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Awst 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mi Awst yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**251. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Gofynnwyd os oedd ymateb wedi dod i gofrestru llwybrau ac adroddwyd fod y mater yma ymysg materion eraill sydd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heno.

**252. I drafod a penderfynu ar unrhyw argymhellion a sut i ymdrin a gwasanaethau bws rhif 88 (Cynghorydd Llywelyn Williams)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Llywelyn Williams, fod y gwasanaeth bws rhif 88 sydd yn teithio o Llanberis i Gaernarfon yn gorffen oherwydd fod y gwasanaethwr presennol Arriva yn tynnu allan o'r gytundeb ar gyfer y llwybr yma ac fod y llwybr yma yn un bwysig ar gyfer cario teithwyr i'w gwaith ac i siopa ayyb.

Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd, ymatebodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones drwy roi braslun o'r drefn a'r gwaith sydd yn mynd ymlaen nawr, fod y tendr allan ar gyfer darparu'r gwasanaeth ac i'w fod yn ôl yn y dyddiau nesaf. Mae disgwyl wedyn i'r darparwr gwasanaeth newydd gychwyn

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**253. I dderbyn ystyried y cam nesaf yn yr ymgyrch i ostwng y cyflymder 40 m.y.a. i 30 m.y.a. yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthod anfon cynrychiolydd i'r Cyngor Cymuned.**

Adroddwyd fod ymateb wedi dod i gais y Cyngor Cymuned i swyddog o'r Adran Briffyrdd fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i egluro eu amharodrwydd i ostwng y cyflymder o 40 m.y.a. i 30 m.y.a. Yn anffodus nid oedd neb o'r adran yn fodlon dod i'r cyfarfod. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi mesur cyflymder ac nad oedd tystiolaeth o or-yrru dros 40 m.y.a.

**Penderfynwyd:**

- Datgan siom yn ymateb Cyngor Gwynedd nad oedd swyddog yn fodlon dod i'r cyfarfod;
- datgan anfodlonrwydd gyda'i penderfyniad i beidio a gostwng y cyflymder;
- y clerc i fynd drwy drefn gwyno Cyngor Gwynedd.

**254. I dderbyn diweddariad ar ein cais i gofrestru 4 llwybr cyhoeddus**

Adroddwyd fod cais wedi mynd i fewn i gofrestru y 4 llwybr ers amser maith nawr ac ein bod eisoes wedi dwyn hyn y sylw'r adran berthnasol.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i fynd drwy'r drefn gwyno swyddogol Cyngor Gwynedd

**255. I dderbyn diweddariad ar y clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod swyddi ar gyfer y clwb wedi eu hysbysebu ond nad oedd mond un cais wedi dderbyn. Y bwriad oedd i ail hysbysebu'r swyddi gyda dyddiad cau nawr wedi ei ymestyn i'r 27ain o Fedi 2018.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**256. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd nad oedd cyfarfod wedi gynnal

**257. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard nad oedd y penderfyniad wedi ei wneud i gau ysgol Cwm y Glo,  ond ar hyn o bryd does dim un plentyn yn yr ysgol. Mae'r penderfyniad i gau'r ysgol neu beidio gyda Cyngor Gwynedd ac mae'r cabinet yn edrych fewn iddo yn y dyddiau nesaf

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**258. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Adroddodd Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fel a ganlyn:-

**Cynllunio**

Mae'r ddau Canllaw Cynllunio Atodol sef,  Tai Marchnad Lleol,  a Llecynnau Agored mewn datblygiad preswyl newydd, erbyn hyn yn barod i fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus, felly ddylai ddod i'r Clerc yn fuan. Dim dyweddariad ar y Canllaw sydd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg eto. Canllawiau yn ymwnued a Twristiaeth ac Cymysgedd Tai wedi bod allan i ymgynghoriad.

**Arbedion**

Dim datblygiadau newydd yn cynlluniau arbedion. Ond mae'r Cyngor yn awyddus i wybod pa wasanethau y cyngor sydd yn bwysig i'r trigolion. Mae posib llenwi holiadur ar lein, hefyd mae nifer o gyfarfodydd cyhoeddus i leisio barn.

**Cwmni Hamdden**

Gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i sefydlu y cwmni y gobaith yw y bydd yn weithredol o mis Ebrill 2019 ymlaen.

**Cartrefi Cymunedol Gwynedd**

Mae'r ONS wedi newid statws cymdithasau tai sydd wedi trosglwyddo, fel eu bod nawr yn gwmniau preifat ac nid yn gwmniau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bydd cynrychiolaeth Cyngor Gwynedd ar Fwrdd y Cwmni yn gostwng o 4 i 2 erbyn diwedd y flwyddyn.

**Bysiau**

Fel rydych yn gwybod mae Arriva wedi rhoi notice i'r cyngor ni fyddant yn rhedeg Bws rhif 88 ymlaen o 23 Medi. Mae tendrau allan ar hyn o bryd i geisio denu cwmni newydd i gymeryd y Gwasanaeth ymlaen. Mae'r tendrau i mewn 20 fed Medi, gyda'r gobaith fydd y Gwasanaeth newydd yn fyw o 24ain o Fedi ymlaen.

**Yn lleol**

**Bryn Têg**

Wedi cael cyfarfod hefo'r Rheolwr a'r Dirprwy ar y safle, maent wedi cytuno i gynyrchu nodyn wythnosol i adael i drigolion wybod pryd fydd y carafanau yn cael eu symud. Dal i fod cwynion sŵn, mae Adran Gwarchod y cyhoedd yn edrych i mewn i hyn.

**Gwaith Clwtio**

Wedi digwydd ar hanner y ffordd trwy Cwm y Glo ac ar y palmentydd hefyd, yr ail hanner iw gwblhau yn yr Hydref.

**Ysgol Cwm y Glo**

Wedi bod i nifer o gyfarfodydd ynglŷn a dyfodol yr Ysgol. Gweler adroddiad y Cynghorydd Alan Pritchard am y sefyllfa diweddaraf.

**Penderfynwyd:** Diolch a derbyn yr adroddiad

**259. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Adroddwyd nad oedd llawer wedi cymryd lle oherwydd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod.

**260. I dderbyn diweddariad ar gyfer rhannu arian elusen 'Llanrug Poor House'.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes ei fod wedi holi prifathrawes yr Ysgol Gynradd ar y posibilrwydd o allu dosbarthu arian yr elusen ar gyfer plant yr ysgol sydd yn dioddef o dlodi. Trafodwyd nifer o wahanol opsiynau

**261. I ystyried 'Wi Fi Cymunedol' (manylion eisoes wedi ei gylchredeg).(Cyng. Berwyn Parry Jones)**

Rhoddwyd adroddiad byr ar y cynllun ac oherwydd fod y dyddiad cau i ddatgan diddordeb o fewn dau ddiwrnod y teimlad oedd nad oed digon o amser i gwblhau'r cais nac fod cyllideb gan y Cyngor ar gyfer y cynllun.

**Penderfynwyd:** Peidio symud ymlaen a'r cynllun Wi Fi cymunedol ar hyn o bryd

**262. I dderbyn diweddariad ar y gronfa diffibriliwr ac i ystyried agor yr apêl i aelodau o'r cyhoedd**

Adroddwyd gan y Clerc fod llythyrau wedi mynd allan i bob busnes yn Llanrug a Cwm y Glo ac fod arian wedi cael ei roi tuag at y gronfa. Dosbarthwyd rhestr i nodi'r rhai oedd wedi cyfrannu. Hyd at noson y cyfarfod roedd £565.00 wedi dderbyn. Gofynnir i'r Cyngor ystyried agor yr apêl allan i'r cyhoedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a penderfynu rhoi hysbysebion fyny mewn mannau cyhoeddus

**263. I gydnabod llwyddiant y fynwent yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn 2018 sydd yn cael ei gynnal gan y 'Memorial Awareness Board' .**

Adroddwyd fod y Fynwent wedi derbyn gwobr, naill ai aur neu arian mewn gwobr ar gyfer mynwentydd bach drwy'r Deyrnas Unedig. Adroddwyd fod gwahoddiad i'r Clerc ac un aelod fynychu'r seremoni wobrwyo.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Clerc ynghyd ac un aelod fynychu'r seremoni.

**264. Ceisiadau Cynllunio**

**a) Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0723/23/LL

**Lleoliad y Safle:** 13, Bro Rhythallt, Llanrug, Caernarfon, LL554AU

**Dyddiad Cofrestru:** 13-Awst-2018

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi estyniad deulawr

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**b) Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0735/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Bryn Ffridd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554RG

**Dyddiad Cofrestru:** 17-Aug-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Llety cathod arfaethedig

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad**

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0738/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Bryn Llan Farm, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PY

**Dyddiad Cofrestru:** 30-Aug-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio/Full - Planning

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Trosi adeilad amaethyddol yn annedd un llofft

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0744/23/R3

**Lleoliad y Safle:** Tir ger / Ystâd Ddiwydiannol Cibyn Industrial Estate, Caernarfon, Gwynedd, LL552BD

**Dyddiad Cofrestru:** 17-Awst-2018

**Math o Gais:** Rheol 3

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Creu maes parcio newydd, mynediad, golau stryd ynghyd a gwaith peirianyddol cysylltiedig

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim sylw

Daeth y cyfarfod i ben am 21:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 Hydref 2018